# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 6

LLOG

## PENNOD 1

LLOG AR SYMIAU SY'N DALADWY I ACC

*Llog taliadau hwyr*

### 157 Llog taliadau hwyr ar symiau sy'n daladwy i ACC

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i—

(a) unrhyw swm o dreth ddatganoledig, a

(b) unrhyw swm o gosb sy'n ymwneud â threth ddatganoledig,

sy'n daladwy gan berson i ACC.

(2) Os na thelir swm y mae'r adran hon yn gymwys iddo cyn dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr, mae'r swm yn dwyn llog (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "llog taliadau hwyr") ar y gyfradd llog taliadau hwyr ar gyfer y cyfnod—

(a) sy'n dechrau â dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr, a

(b) sy'n dod i ben â'r dyddiad talu.

(3) Dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr ar gyfer y swm yw'r dyddiad sy'n dilyn y dyddiad y daw'r swm yn daladwy, yn ddarostyngedig i adrannau 159 a 160.

(4) Mae is-adran (2)(a) yn gymwys hyd yn oed os yw dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr yn ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod busnes o fewn ystyr a roddir i "non-business day" yn adran 92 o Ddeddf Biliau Cyfnewid 1882 (p. 61).

(5) Yn yr adran hon, mae i "cyfradd llog taliadau hwyr" yr ystyr a roddir gan adran 163(1).

### 158 Llog taliadau hwyr: atodol

(1) Nid yw llog taliadau hwyr yn daladwy ar log taliadau hwyr.

(2) Mae'r dyddiad talu, mewn perthynas â swm y mae adran 157 yn gymwys iddo, yn cynnwys y dyddiad y caiff ei osod yn erbyn swm sy'n daladwy gan ACC.

*Dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr: rheolau arbennig*

### 159 Dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr: diwygiadau i asesiadau etc.

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i swm sy'n daladwy o ganlyniad i—
- (a) diwygiad o dan adran 41, 45 neu 50, neu gywiriad o dan adran 42, i asesiad ("asesiad A"),
- (b) asesiad ACC a wneir yn lle neu yn ychwanegol at asesiad ("asesiad A"), neu
- (c) asesiad o dan adran 45 neu 50, neu ddyfarniad ACC, a wneir yn lle asesiad ("asesiad A") y dylid bod wedi ei wneud gan berson y mae treth ddatganoledig i'w chodi arno.

(2) Dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr ar gyfer y swm hwnnw yw'r dyddiad a fyddai wedi bod yn ddyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr—
- (a) pe byddai asesiad A wedi bod yn gyflawn ac yn gywir ac wedi ei wneud ar y dyddiad (os o gwbl) erbyn pryd yr oedd yn ofynnol ei wneud, a
- (b) yn unol â hynny, pe byddai'r swm wedi bod yn daladwy o ganlyniad i asesiad A.

### 160 Dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr: marwolaeth trethdalwr

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—
- (a) os yw person y mae swm o dreth ddatganoledig i'w godi arno neu gosb sy'n ymwneud â threth ddatganoledig i'w chodi arno yn marw cyn y daw'r swm yn daladwy, a
- (b) os nad yw'r ysgutor neu'r gweinyddwr yn gallu talu'r swm cyn cael profiant neu lythyrau gweinyddu neu ddogfen arall ag iddi effaith gyfatebol o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth heblaw Cymru a Lloegr mewn perthynas ag ystad yr ymadawedig.

(2) Dyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr ar gyfer y swm hwnnw yw'r hwyraf o'r canlynol—
- (a) y dyddiad a fyddai wedi bod yn ddyddiad dechrau'r llog taliadau hwyr oni bai am yr adran hon, a
- (b) y diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â grant profiant neu lythyrau gweinyddu neu ddogfen arall ag iddi effaith gyfatebol o dan gyfraith gwlad neu diriogaeth heblaw Cymru a Lloegr mewn perthynas ag ystad yr ymadawedig.

## PENNOD 2

## LLOG AR SYMIAU SY'N DALADWY GAN ACC

### *Llog ad-daliadau*

### 161 Llog ad-daliadau ar symiau sy'n daladwy gan ACC

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i unrhyw swm perthnasol a dalwyd gan berson i ACC a ad-delir gan ACC i'r person hwnnw neu i berson arall.

(2) Ystyr "swm perthnasol" yw swm a dalwyd mewn cysylltiad ag unrhyw rwymedigaeth (gan gynnwys unrhyw rwymedigaeth honedig neu rwymedigaeth a ragwelir) i dalu i ACC—

(a) swm o dreth ddatganoledig, neu

(b) swm o gosb sy'n ymwneud â threth ddatganoledig.

(3) Os nad ad-delir swm y mae'r adran hon yn gymwys iddo cyn dyddiad dechrau'r llog ad-daliadau, mae'r swm yn dwyn llog (y cyfeirir ato yn y Rhan hon fel "llog ad-daliadau") ar y gyfradd llog ad-daliadau ar gyfer y cyfnod—

(a) sy'n dechrau â dyddiad dechrau'r llog ad-daliadau, a

(b) sy'n dod i ben â'r dyddiad ad-dalu.

(4) Dyddiad dechrau'r llog ad-daliadau ar gyfer y swm perthnasol yw'r hwyraf o'r canlynol—

(a) y diwrnod y talwyd y swm perthnasol i ACC, a

(b) y diwrnod y daeth y swm a grybwyllir yn is-adran (2)(a) neu (b), y talwyd y swm perthnasol mewn cysylltiad ag ef, yn daladwy i ACC.

(5) Mae is-adran (3)(a) yn gymwys hyd yn oed os yw dyddiad dechrau'r llog ad-daliadau yn ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod busnes o fewn yr ystyr a roddir i "non-business day" yn adran 92 o Ddeddf Biliau Cyfnewid 1882 (p. 61).

(6) Yn yr adran hon, mae i "cyfradd llog ad-daliadau" yr ystyr a roddir gan adran 163(2).

### 162 Llog ad-daliadau: atodol

(1) Nid yw llog ad-daliadau yn daladwy ar swm sy'n daladwy o ganlyniad i orchymyn neu ddyfarniad llys sydd â phŵer i ganiatáu llog ar y swm.

(2) Nid yw llog ad-daliadau yn daladwy ar log ad-daliadau.

(3) Mae'r dyddiad ad-dalu, mewn perthynas â swm y mae adran 161 yn gymwys iddo, yn cynnwys y dyddiad y caiff ei osod yn erbyn swm sy'n ddyledus i ACC.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## PENNOD 3

### CYFRADDAU LLOG

**163 Cyfraddau llog taliadau hwyr a llog ad-daliadau**

(1) Y gyfradd llog taliadau hwyr yw'r gyfradd y darperir ar ei chyfer mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(2) Y gyfradd llog ad-daliadau yw'r gyfradd y darperir ar ei chyfer mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) neu (2)—

(a) gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol;

(b) naill ai bennu cyfradd llog eu hunain neu wneud darpariaeth ar gyfer pennu cyfradd (a'i newid o bryd i'w gilydd) drwy gyfeirio at gyfradd neu gyfartaledd cyfraddau y cyfeirir ati neu ato mewn rheoliadau;

(c) darparu ar gyfer gostwng cyfraddau islaw, neu eu codi uwchlaw, yr hyn y byddent fel arall drwy gyfeirio at symiau penodedig neu at fformiwlâu penodedig;

(d) darparu ar gyfer talgrynnu i fyny neu i lawr gyfraddau a geir drwy gyfeirio at gyfartaleddau;

(e) darparu ar gyfer amgylchiadau pa fo cyfradd llog i'w haddasu neu pan na fo i'w haddasu;

(f) darparu bod addasiadau i gyfraddau i gael effaith am gyfnodau sy'n dechrau ar neu ar ôl diwrnod a bennir yn unol â'r rheoliadau mewn perthynas â llog sy'n dechrau cronni cyn y dyddiad hwnnw yn ogystal ag o'r diwrnod hwnnw neu ar ôl y diwrnod hwnnw.